



Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2016 dccc 3

RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: y prif ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru

30 Targedau allyriadau interim

- (1) Ar gyfer pob blwyddyn darged interim rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a fynegir fel canran islaw'r waelodlin ("targed allyriadau interim").
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob blwyddyn darged interim yn uwch na'r targed allyriadau interim ar gyfer y flwyddyn honno.
- (3) Y blynyddoedd targed interim yw 2020, 2030 a 2040.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y targedau allyriadau interim cyn diwedd 2018.

Gwybodaeth Cychwyn

II A. 30 mewn grym ar 21.5.2016, gweler [a. 88\(2\)\(b\)](#)

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 30.